29 Mawrth 2021

Annwyl Swyddog Cyfrifol,

TECHNOLEG YNG NGHYMWYSTERAU'R DYFODOL

Mae Cymwysterau Cymru yn archwilio rôl technoleg mewn cymwysterau a gymerir gan ddysgwyr yng Nghymru yn y dyfodol.

Er mwyn ein helpu i gael gwell dealltwriaeth o'r defnydd, y manteision a'r heriau y mae technoleg yn eu cynnig, rydym yn cynnal cyfres o drafodaethau bord gron gan ddechrau ar 27 Ebrill 2021.

Rydym am glywed gennych ynglŷn â'r cyfleoedd y mae technoleg yn eu cynnig ar gyfer gwahanol bynciau a mathau o gymwysterau ac rydym yn gwahodd cydweithwyr o bob corff dyfarnu sydd â diddordeb i gyfrannu at y drafodaeth hon drwy fynychu unrhyw un, neu bob un, o'r sesiynau isod.

Bydd pob sesiwn yn cynnwys cyflwyniad cychwynnol i osod y cyd-destun ac yna trafodaeth wedi'i hwyluso gyda chyfranogwyr iddyn nhw rannu eu profiadau. Bydd y sesiynau'n cael eu cynnal drwy Zoom ac yn para am 90 munud. Ceir trosolwg o bob sesiwn a dolenni cofrestru isod.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Sesiwn 1 – Myfyrdodau ar y defnydd o dechnoleg yn ystod y pandemig

Bydd y sesiwn hon yn gwahodd cyrff dyfarnu i fyfyrio ar y ffyrdd y defnyddiwyd technoleg i ddarparu asesiadau ers dechrau pandemig Covid-19. Bydd y drafodaeth yn cynnwys y ffyrdd y mae technoleg wedi galluogi asesiadau i fynd rhagddynt a'r gwersi a ddysgwyd y gellir eu trosglwyddo i ymarfer yn y dyfodol.

Cynhelir y sesiwn hon ar 27 Ebrill 2021, 10-11.30am. Gallwch gofrestru ar gyfer y sesiwn nawr.

Sesiwn 2 – Sut y gallai technoleg fod o fudd i asesiadau yn y dyfodol

Nod y sesiwn fydd nodi'r manteision y gallai technoleg eu cynnig mewn agweddau ar asesu:

1. Hydrinedd, gan gynnwys ar gyfer dysgwyr, canolfannau a chyrff dyfarnu;
2. Hygyrchedd, gan gynnwys ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Cynhelir y sesiwn hon ar 25 Mai 2021, 2-3.30pm. Gallwch gofrestru ar gyfer y sesiwn nawr.

Sesiwn 3 – Rhannu arferion gorau o ran defnyddio technoleg ar gyfer asesiadau

Bydd y sesiwn hon yn gwahodd cydweithwyr o gyrff dyfarnu i arddangos enghreifftiau o'r ffyrdd llwyddiannus, ac efallai arloesol, y defnyddir technoleg ar hyn o bryd wrth asesu mewn un neu ragor o'u cymwysterau.

Bydd y sesiwn wedyn yn gofyn, "Sut gallai technoleg wella ymhellach y ffordd y caiff cymwysterau eu hasesu?"

Cynhelir y sesiwn hon ar 22 Mehefin 2021, 2-3.30pm. Gallwch gofrestru ar gyfer y sesiwn nawr.

Os hoffech gyfrannu enghraifft i'r arddangosfa ar ddechrau'r sesiwn hon, byddem yn ddiolchgar iawn o glywed gennych. Rhowch wybod i ni drwy e-bostio datblygu@cymwysteraucymru.org.

Edrychwn ymlaen at gyfarfod â chi ac os oes gennych unrhyw gwestiynau mae croeso i chi gysylltu â mi ar dean.seabrook@qualificationswales.org.

Yn gywir,

Dean Seabrook

Rheolwr Cymwysterau
Y Gyfarwyddiaeth Polisi a Diwygio Cymwysterau.